



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru

Dangosyddion ar gyfer Gwobr Ansawdd Genedlaethol
Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES | Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Welsh Network of Healthy School Schemes



Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru

Dangosyddion ar gyfer Gwobr Ansawdd Genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru

Cynulleidfa

Cydgysylltwyr Ysgolion Iach Lleol ac ysgolion sy'n cyfranogi mewn cynlluniau ysgolion iach lleol.

Trosolwg

Mae'r canllawiau hyn yn darparu dangosyddion ar gyfer Gwobr Ansawdd Genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru.

Gwybodaeth bellach

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Gydgysylltwyr Ysgolion Iach Lleol.

Copïau ychwanegol

Gellir cael y rhain gan: Gydgysylltwyr Ysgolion Iach Lleol.



Cynnwys

Gwybodaeth ddefnyddiol	1
Y Broses	2
Mathau o Dystiolaeth	3
Cyfeiriadau	4
Bwyd a Ffitrwydd	5
Iechyd a Lles Meddyliol ac Emosiynol	19
Datblygiad Personol a Pherthnasoedd	31
Defnyddio a Chamddefnyddio Sylweddau	39
Yr Amgylchedd	47
Diogelwch	55
Hylendid	63





Dangosyddion ar gyfer Gwobr Ansawdd Genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru

Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae'r ddogfen hon yn manylu ar y meini prawf perfformio i ysgolion sy'n cael eu hasesu ar gyfer gwobr ansawdd genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru.

Mae'n cydnabod y 7 testun iechyd y dylid eu cwmpasu tra bydd ysgol yn ymwneud â'r cynllun; ac i bob un o'r rhain mae'n nodi agweddau pwysig ar ddull ysgol gyfan yn yr elfennau canlynol o fywyd yr ysgol: Arweiniad a Chyfathrebu, y Cwricwlwm, Ethos ac Amgylchedd a Chynnwys Teuluoedd a'r Gymuned.

Mae'n adeiladu ar ddogfen *Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru, Canllawiau ar gyfer gweithio gydag ysgolion ar bob cyfnod o'r rhaglen* gan ystyried sawl egwyddor sylfaenol:

- pwysigrwydd cyfranogiad disgyblion ym meysydd craidd bywyd ysgolion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar iechyd a lles plant a phobl ifanc ee, addysgu a dysgu, yr amgylchedd, dewis staff, gofal bugeiliol;
- pwysigrwydd dealltwriaeth cymuned yr ysgol gyfan a'i hymrwymiad i weithredu;
- bodolaeth agwedd gadarnhaol tuag at iechyd;
- tegwch;
- cysylltiadau â rhaglenni a pholisïau cenedlaethol a lleol eraill sy'n berthnasol.

Rhoddir enghreifftiau o weithgareddau y gellir eu gweld yn yr ysgol fel tystiolaeth o'r dangosyddion. Nid yw'r rhestrau hyn yn ddihysbydd nac yn rhagnodedig, ond yn gyffredinol, byddai aseswyr yn disgwyl bod o leiaf hanner yr enghreifftiau hyn yn eu lle.

Mewn enghreifftiau o fanylebau/gweithgareddau/tystiolaeth berthnasol, mae (C) yn dangos ei fod yn fwy perthnasol i Ysgolion Cynradd ac mae (U) yn dangos ei fod yn fwy perthnasol i Ysgolion Uwchradd.



Mewn tri achos ceir rhestrau manwl o gamau gweithredu y mae'n rhaid iddynt fod yn eu lle. Mae'r rhain yn gysylltiedig â chamau gweithredu Bwyd a Ffitrwydd sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion; a'r safonau gofynnol ar gyfer hylendid sy'n deillio o *Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (0-5 oed) Meithrinfeydd, Gwarchodwyr Plant a Grwpiau Chwarae – Canllawiau Cymru Gyfan!* a *Dysgwch Wers i Germau!*; a safon ofynnol ar gyfer Defnyddio a Chamddefnyddio Sylweddau i adlewyrchu'r gefnogaeth i'r ddeddfwriaeth ar ysmegu.

Ar ben hynny, ystyrir bod iechyd staff yn 'ddatblygiad o weithle sy'n hybu iechyd' o dan Iechyd a Lles Meddyliol ac Emosiynol ac fe'i cysylltir â'r Safon Iechyd Gorfforaethol.

Mae Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru yn rhan o Rwydwaith Ysgolion Hybu Iechyd Ewrop (SHE), gan adlewyrchu dull SHE. Mae hefyd yn mynd i'r afael â Saith Nod Craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Y Broses

Asesir y dangosyddion a restrir isod mewn gwahanol ffyrdd tra bydd ysgol yn ymwneud â Chyfnod 6 y cynlluniau ysgolion iach.

Bydd cydgysylltwyr ysgolion iach yn cydweithio ag ysgolion i baratoi portffolios tystiolaeth¹ gan asesu'r dangosyddion a nodi cynnydd.

Ar ddiwedd cyfnod 6, unwaith y bydd cydgysylltwyr yn fodlon bod yr holl dystiolaeth ar gael, gwahoddir asesydd annibynnol cenedlaethol i asesu'r ysgol trwy edrych ar ddogfennaeth ac ymweld â'r ysgol i dderbyn cyflwyniad gan gyngor yr ysgol neu grŵp disgyblion priodol arall, i gael taith o gwmpas yr ysgol o dan arweiniad disgyblion ac i achub ar y cyfle i siarad â staff yr ysgol. Darperir amserlen arfaethedig cyn yr ymweliad.

Dylai ysgolion sydd wedi gwneud cais i gael eu hasesu'n annibynnol allu dangos yr HOLL ddangosyddion, a bydd aseswyr yn cyfarfod â chydgyssylltydd y cynllun ysgolion iach lleol i drafod y dystiolaeth a ddarperir. Yn ystod yr ymweliad â'r ysgol bydd yr asesydd yn chwilio am agwedd ysgol-gyfan at iechyd sydd wedi'i sefydlu a'i deall gan bawb.

Yn ychwanegol at y dangosyddion penodol, bydd yr aseswyr yn disgwyl gweld tystiolaeth o gysylltiadau perthnasol yn cael eu gwneud â fframwaith effeithiolrwydd yr ysgol. Disgwylir y bydd tystiolaeth a ddarperir ar gyfer hunanwerthuso fframwaith effeithiolrwydd yr ysgol yn ymgorffori gwaith ysgolion iach.

¹ Gall tystiolaeth gynnwys polisïau, cofnodion hyfforddiant, prosbectws yr ysgol, adroddiad blynyddol i rieni, llythyrau at rieni, adrannau perthnasol o Gynllun Datblygu'r Ysgol, adroddiad Estyn, amserlenni, cynlluniau gwaith, cylchgronau/cylchlythyrau/gwefan a chofnodion cyngor yr ysgol.



Dim ond ar ôl i ysgol gyrraedd Cyfnod 6 o'r cynllun ysgolion iach lleol, ar ôl 8-9 mlynedd o gyfranogi gweithredol yr eir ati i asesu ar gyfer y Wobr Ansawdd Genedlaethol.

Mathau o Dystiolaeth

Yn ystod asesiad caiff tystiolaeth ei chyflwyno mewn unrhyw un o dair ffordd. Mae gan bob math o dystiolaeth ddilysrwydd cyfartal. Mae pob math o dystiolaeth yn cefnogi ac yn ategu'r lleill. Rhaid cyflwyno o leiaf un darn o dystiolaeth *fesul maen prawf ac fesul dangosydd*, ond gall hwn fod ar unrhyw un o dair ffurf. Dylai o leiaf un darn o dystiolaeth **ddogfennol** fod ar gael ar gyfer pob maen prawf. Rhoddir amlinelliad o'r tri math hyn o dystiolaeth isod:

1. **Tystiolaeth a welwyd** – Tystiolaeth a welwyd yw'r hyn y mae'r asesydd yn ei weld yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol. Mae'n cynnwys y ddarpariaeth yn ystod yr egwyl ac amser cinio, clwb brechwast, mannau awyr agor etc. Mae cael taith o amgylch yr ysgol yn hanfodol, gan ei fod yn galluogi'r aseswyr i weld a deall sut y mae'r ysgol yn gweithio.

Yn ystod y daith o amgylch yr ysgol, bydd yr aseswyr yn edrych ar amrywiaeth o agweddau ar fywyd yr ysgol, fel a yw'r athrawon yn esiampl dda i'r plant ai peidio; a yw'r tai bach yn addas (ee a yw drysau'r toiledau'n gyfan, a oes sebon ar gael); y ddarpariaeth yn y ffreutur; a yw hylendid yn cael ei hyrwyddo drwy ddangos posteri golchi dwylo etc. Bydd mynd ar daith o amgylch yr ysgol yn helpu'r asesydd i weld a yw polisiau'r ysgol yn llywio ac yn cefnogi arferion, gan nodi bod yr hyn a welir yn disodli'r polisi ar adegau.

Gofynnir i ysgolion fod yn hyblyg ynghylch y mannau y gellir ymweld â nhw yn ystod y daith o amgylch yr ysgol. Bydd yr aseswyr yn gofyn am gael ymweld ag amrywiaeth o ardaloedd yn yr ysgol, ac efallai na fydd y rhain yn rhan o'r daith a fwriadwyd i ddechrau, yn arbennig os oes problem wedi codi yn ystod yr asesiad. Er enghraifft, os bydd asesydd yn cael ei dywys i doiledau newydd efallai y bydd yn gofyn am gael gweld 'hen' doiledau yn yr ysgol hefyd.

2. **Tystiolaeth ddogfennol** – Tystiolaeth ddogfennol fel polisiau, arwyddion, lluniau, gwaith disgyblion, cynlluniau dysgu etc. Mae'r deunydd hwn yn rhoi darlun manwl o sut y mae iechyd a lles yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo yn yr ysgol a thrwy'r ysgol. Mae cynnwys y ffeiliau tystiolaeth fel arfer yn cynnwys polisiau, dogfennau'r cwricwlwm, dyfyniadau perthnasol o gynllun gwella'r ysgol a dogfennau perthnasol eraill yn ymwneud â'r ysgol. Gall elfennau penodol o'r dystiolaeth ysgrifenedig fod ar gael i aseswyr i fynd gyda nhw i'w defnyddio wrth ysgrifennu adroddiad am yr asesiad.



3. **Tystiolaeth naratif** – Mae'r math hwn o dystiolaeth yn cynnwys trafodaethau ag unrhyw unigolyn neu grŵp sy'n dylanwadu ar les disgyblion. Bydd aseswyr yn disgwyl siarad â chynrychiolwyr o gyngor yr ysgol a/neu grwpiau disgyblion, aelodau o staff, a'r tîm rheoli, y corff llywodraethu, rhieni, a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r ysgol ar faterion lles ee heddwes cymunedol lleol, nyrs yr ysgol, cogydd etc. Pan fydd rhanddeiliaid allanol yn dod i mewn i'r ysgol i helpu i ddysgu meysydd pwnc penodol a'u bod yn rhan o'r broses asesu, dylid dangos tystiolaeth o gysylltiadau clir rhwng mewnbyn y person hwnnw a sut y mae'n cyfrannu at y cwricwlwm sy'n cael ei ddysgu.

Mae tystiolaeth naratif yn rhoi cyfle arall i ddilysu arfer da yr ysgol ac i randdeiliaid gynnig tystiolaeth bellach am sut y mae'r ysgol yn esiampl dda o ysgol iach. Mae aseswyr hefyd yn gallu trafod yn fwy agored unrhyw feysydd diddordeb gyda phobl allweddol sy'n cymryd rhan a chodi unrhyw broblemau a allai fod angen eu hystyried yn bellach.

Cyfeiriadau:

Canllawiau ar gyfer gweithio gydag ysgolion ar bob cyfnod o'r rhaglen, Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru, 2008, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013

Cyfarwyddyd ar Atal Heintiau (mewn meithrinfeydd)

Cynllun Gweithredu Blas am Oes, 2008, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Canllawiau ar Atal a Rheoli Heintiau mewn Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar - Canllawiau Cymru Gyfan (Iechyd Cyhoeddus Cymru 2014)

Atal Heintiau mewn Lleoliadau Addysgol – Canllawiau Cymru Gyfan

Y Safon Iechyd Gorfforaethol www.healthyworkingwales.com

Rhwydwaith Ysgolion Hybu Iechyd Ewrop www.schoolsforhealth.eu

Saith Nod Craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru <http://new.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/568736/?skip=1&lang=cy>

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn www.unicef.org/crc/

Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn Ysgolion

Esboniad o D / G / N = Dogfennau / Gweld / Naratif



BWYD A FFITRWYDD



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisiau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
Arweiniad a Chyfathrebu				
1. Polisi Bwyd a Ffitrwydd (y broses weithredu wedi'i hadlewrychu ym meini prawf 2-11)	1.1 Polisi yn ei le sy'n dilyn canllawiau cenedlaethol a lleol gyda gweithdrefnau monitro ac adolygu yn eu lle. 1.2 Polisi'n cael cefnogaeth llywodraethwyr ac yn dangos cyfranogiad gan ddisgyblion. Y polisi wedi'i ddatblygu gan gyngor yr ysgol neu weithgor disgyblion.	Bwyd a Ffitrwydd Grŵp Gweithredu ar Faeth yn y Ysgol (SNAG)		



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisiau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
2. Ymrwymiad i hyfforddiant y staff cyfan ar faterion sy'n gysylltiedig â bwyd a ffitrwydd	2.1 Pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol. 2.2 Mae hyfforddiant wedi dylanwadu ar ymarfer.	Ymgymryd â chyfleoedd i gael cymwysterau ac achredu Sgiliau maeth a bwyd cymunedol Mentrau newydd wedi'u cyflwyno ers yr hyfforddiant		



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisïau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
<p>3. Ymwneud â mentrau lleol/cenedlaethol penodol a materion cymdeithasol ac amgylcheddol, ac ymateb iddynt</p>	<p>3.1 Mae ysgolion yn manteisio ar gyfleoedd a gynigir i gael eu cynnwys mewn mentrau lleol a chenedlaethol.</p> <p>3.2 Dylai ysgolion fod yn gymwys i gael Gwobr Ansawdd Genedlaethol os ydynt yn cymryd rhan yn elfen graidd Cynllun Gwên, gyda phlant 3-5 oed yn brwsio'u dannedd 5 gwaith yr wythnos. Fel lleiafswm, bydd hyn yn cynnwys plant y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn, ond gall gynnwys plant Blwyddyn 1 hefyd</p>	<p>Cystadlaethau'r Urdd Cydweithfa fwyd Cymru'n Coginio/ <i>Get Cooking</i> Mentrau iechyd y geg ee Wythnos Wenu Genedlaethol; Cynllun Gwên Diwrnodau/digwyddiadau hyrwyddo bwyd iach Caffael lleol Ailgylchu lleol Defnyddio cynnyrch Masnach Deg priodol. Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion Campau'r Ddraig/Clwb 5x60 30,40,50 (C) Bws Cerdded (C) <i>Top Start</i> (C) Symud y Dosbarth! (C) Digwyddiadau pontio Brecwast am ddim Beiciwch hi Wythnos Cerdded i'r Ysgol</p>		



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisiau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
Cwricwlwm				
4. Bwyd a Ffitrwydd wedi'u cynnwys yn y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac ABC	4.1 Mae cynlluniau gwaith yn adlewyrchu polisiau ac yn nodi cysylltiadau trawsgwricwlaidd â gweithgarwch corfforol, iechyd y geg a maeth, gan gynnwys y cysylltiadau rhwng bwyd a ffitrwydd ac iechyd a lles meddyliol ac emosiynol. 4.2 Mae adnoddau'r cwricwlwm a ddefnyddir yn adlewyrchu'r canllawiau cyfredol. 4.3 Mae'r ysgol yn ymrwymedig i ddarparu 2 awr yr wythnos o addysg gorfforol uchel ei safon i bob disgybl. 4.4 Mae negeseuon cyson yn cael eu darparu ac mae negeseuon cymysg yn cael eu hosgoi ynglŷn â deiet, iechyd y geg a gweithgarwch corfforol ee, trwy beidio â defnyddio ymgyrchoedd hyrwyddo, cynhyrchion brand neu fwyd a diod afiach fel gwobrau.	Ymarfer sy'n gysylltiedig ag iechyd Cynlluniau gwobrwyo priodol Trosolwg o ble y mae bwyd a ffitrwydd yn cael eu gweithredu wrth gynllunio ac yn y cwricwlwm		



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisiau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
<p>5. Mae dysgu y tu allan i oriau ysgol yn ymgorffori sgiliau a gweithgareddau bwyd a ffitrwydd</p>	<p>5.1 Amserlen weithgareddau eang yn ei lle, sy'n briodol i bob disgybl yn yr ysgol.</p> <p>5.2 Mae negeseuon cyson yn cael eu darparu ac mae negeseuon cymysg yn cael eu hosgoi ynglŷn â deiet, iechyd y geg a gweithgarwch corfforol ee, trwy beidio â defnyddio ymgyrchoedd hyrwyddo, cynhyrchion brand neu fwyd a diod afiach fel gwobrau.</p>	<p>Cynlluniau gwobrwyo priodol Clybiau coginio ee, Cymru'n Coginio/<i>Get Cooking</i>/Coginio ar arian bach Cysylltiadau â chlybiau chwaraeon lleol</p> <p>Mae snaciau/diodydd, pan cânt eu darparu, yn cefnogi'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion</p>		



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisiau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
Ethos ac Amgylchedd yr Ysgol				
6. Cyfranogiad Disgyblion	<p>6.1 Tystiolaeth o enghreifftiau o fentrau bwyd a ffitrwydd lle y mae disgyblion yn cyfranogi'n weithredol.</p> <p>6.2 Tystiolaeth bod disgyblion yn cael eu cynnwys wrth werthuso camau gweithredu.</p> <p>6.3 Tystiolaeth bod disgyblion yn cyfranogi mewn trafodaethau ag arlwywyr ynglŷn â darparu bwyd ysgol.</p>	<p>Grŵp Gweithredu ar Faeth yn yr Ysgol</p> <p>Gwasanaethau Bwyd a Ffitrwydd yn yr Ysgol</p> <p>Newid yn narpariaeth bwyd</p> <p>Cynllunio pecynnau bwyd iach</p> <p>Mabolgampau</p> <p>A oes mwy o ddisgyblion yn defnyddio gwell cyfleusterau/ darpariaeth</p>		



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisïau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
7. Cyfranogiad Staff	7.1 Tystiolaeth bod pob aelod o staff yn cymryd rhan mewn rhaglenni a mentrau ac yn/neu'n eu cefnogi.	Gweithgareddau corfforol a gweithgareddau bwyd ar gael i bob aelod o staff Staff a disgyblion yn yfed dŵr ac yn bwyta ffrwythau <i>Race for life</i>		
8. Amgylchedd, ethos a chwricwlwm anffurfiol yr ysgol	8.1 Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd lle yr ystyrir bod bwydo ar y fron yn arferol. 8.2 Anogir yr holl staff i ddangos ymddygiadau sy'n gyson â'r polisi bwyd a ffitrwydd ee, yfed dŵr, bwyta ffrwythau, cyfranogi yng nghlwb 30/40/50.	Cynllun cyfeillgar i fabanod UNICEF UK www.unicef.org.uk/BabyFriendly/ Doliau ddim wastad â photeli Ailgylchu Compostio Gardd lysiau/rhandir Cynllun brwsio dannedd (C) Cynlluniau gwobrwyo priodol Marciau a pharthau yn y buarth chwarae (C) Cynllun cyfeillio yn y buarth chwarae (C) Chwarae gweithredol (C) Gemau traddodiadol y buarth chwarae (C) Mynediad i ardaloedd agored		



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisiau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
	<p>8.3 Mae'r amgylchedd yn annog gweithgarwch corfforol.</p> <p>8.4 Mae'r ffreutur/ystafell fwyta yn amgylchedd cymdeithasol a dymunol.</p>	<p>Bws cerdded (C) Rheseli beiciau (a ddefnyddir yn aml) Llwybrau gweithgareddau/ffitwydd Offer yn y buarth chwarae Gallu cael dŵr am ddim Gwneud gwelliannau</p> <p>Systemau archebu o flaen llaw Mynd fesul tipyn Eistedd gyda ffrindiau p'un a ydynt yn cael cinio wedi'i goginio/pecyn cinio</p>		



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisïau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
	<p>8.5 Trefnir amser cinio i adael digon o amser i bob disgybl ddewis a bwyta prydau o fwyd mewn amgylchedd gwâr gyda chyn lleied o giwio ag sy'n bosibl.</p> <p>8.6 Mewn ysgolion uwchradd mae mesurau yn eu lle i annog disgyblion i aros ar y safle ac i ddefnyddio'r cyfleusterau'n effeithiol.</p> <p>8.7 Mae gwybodaeth ar gael i rieni ynglŷn â hawl i gael prydau ysgol am ddim ac mae'r ysgol yn mynd ati i annog disgyblion i'w derbyn. Mae mesurau yn eu lle i atal rhag stigmatiddio disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.</p> <p>8.8 Mae polisi bwyd yr ysgol yn amlwg ar deithiau ysgol.</p>	<p>Mwy o fannau gweini/bwyta Gwerthu bwydydd iach mewn peiriannau Cyfyngiadau ar fynd oddi ar y safle Cyfleusterau ar-lein i lenwi ffurflenni Dim gwahaniaethu yn y ffreutur rhwng y rheini sy'n talu a'r rheini sydd â hawl cael pryd ysgol am ddim <i>Croesgyfeirio â dangosydd 7.2 Datblygiad Personol a Pherthnasoedd</i></p>		



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisiau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
Cynnwys Teuluoedd a'r Gymuned				
9. Cynnwys teuluoedd a'r gymuned	<p>9.1 Mae rhieni/gofalwyr yn cael eu hysbysu'n gyson ac yn deall pwysigrwydd polisi ar faeth da a gweithgarwch corfforol iddyn nhw ac i'r disgyblion.</p> <p>9.2 Mae'r ysgol yn cynnig y cyfle i deuluoedd a'r gymuned ehangach i gael eu cynnwys mewn gweithgareddau sydd ar y cwricwlwm neu heb fod ar y cwricwlwm sy'n gysylltiedig â bwyd a ffitrwydd ac i gyfrannu atynt os yw'n berthnasol.</p> <p>9.3 Mae cysylltiadau'n cael eu gwneud â sefydliadau cymunedol lleol, clybiau chwaraeon a busnesau i gefnogi'r agenda bwyd a ffitrwydd.</p>	<p>Nosweithiau Rhieni Ffeiriau iechyd Ymweliadau â ffermydd Pecynnau bwyd</p> <p>Cymryd rhan mewn diwrnodau coginio, mabolgampau</p> <p>Archfarchnadoedd/siopau bwyd lleol Bwytai/Cogyddion Chwaraeon a hamdden Parciau lleol</p>		



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisiau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
<p>10. Ymwneud a chydweithredu ag asiantaethau statudol a gwirfoddol ac unigolion y tu allan i'r ysgol</p>	<p>10.1 Mae asiantaethau, clybiau ac unigolion allanol priodol yn cefnogi ac yn ategu datblygiad polisiau, rhaglenni a'r cwricwlwm.</p> <p>10.2 Mae unrhyw gyfraniad yn cael ei gynllunio, yn cydymffurfio â pholisiau, yn cael ei integreiddio, yn cael ei werthuso ac mae camau dilynol yn cael cymryd ar y gwaith.</p>	<p>Cysylltiadau â chlybiau lleol Gweithgareddau hyrwyddo gweithgarwch corfforol Chwaraeon Cymru Dietegwyr iechyd y cyhoedd/ staff Blas am Oes Gwasanaeth arlwy ysgolion</p> <p>Cynllunio'r cwricwlwm</p>		



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisiau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
Darparu bwyd a diod				
11. Darparu bwyd a diod	<p>11.1 Mae'r holl fwyd a diod a gynigir trwy gydol y diwrnod ysgol yn gyson â Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013 ('Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion').</p> <p>11.2 Mae dŵr ar gael am ddim ac mewn lleoliad addas (nid yn y toiledau) ac mae'r ysgol yn mynd ati i hyrwyddo yfed dŵr.</p> <p>11.3 Ffrwythau ffres, llysiau dŵr a llaeth yw'r unig eitemau a gynigir yn ystod amseroedd egwyl ysgolion cynradd.</p> <p>11.4 Mae'r ysgol yn mynd ati i annog darparu pecynnau bwyd iach trwy roi gwybodaeth i ddisgyblion a rhieni.</p>	<p>Siop ffrwythau yn yr ysgol Cynllun dŵr ar y ddesg Cynhyrchion Masnach Deg priodol Cynllun llaeth am ddim ac â chymhorthdal Menter Brechwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd (C) Diwrnodau/digwyddiadau hyrwyddo bwyd iach <i>Clued up on Food</i> Trafod bwydo ar y fron yn y cwricwlwm (U) Plât Bwyta'n Iach Chwarae i ddysgu Siop yn yr ysgol Mentro Masnach Deg</p>		



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisïau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
	<p>11.5 Mae peiriannau gwerthu'n cydymffurfio â'r canllawiau yn 'Dewis Gwerthu lach' a Rheoliadau Bwyta'n lach mewn Ysgolion.</p> <p>11.6 Mewn ysgolion lle yr hyrwyddir cynllun Menter yr Ifanc, rhoddir canllawiau i ddisgyblion ynglŷn â phriodoldeb unrhyw fenter fel nad yw yn tanseilio 'Rheoliadau Bwyta'n lach mewn Ysgolion'.</p> <p>11.7 Mae ysgolion yn mynd ati i beidio ag annog ymdrechion faniau/ gwasanaethau bwyd sydyn i werthu bwyd i staff neu ddisgyblion yn ystod y diwrnod ysgol, neu'n union cyn dechrau neu ar ôl diwedd y diwrnod ysgol.</p>			

The background is a solid purple color with several white, wavy, leaf-like or wave-like patterns scattered across it. A dark purple horizontal bar is positioned in the center of the page, containing white text.

I ECHYD A LLES MEDDYLIOL AC EMOSIYNOL



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisiau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
Arweiniad a Chyfathrebu				
<p>1. Polisiau a Strategaethau Priodol yn eu lle:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Polisi a Strategaeth Gwrth-fwlio • Polisi Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol • Polisi/cynllun cydraddoldeb • Diogelu • Polisi profedigaeth • Dogfen hunan-werthuso • Llawlyfr staff, polisi iechyd staff, cenhadaeth a gweledigaeth (y broses weithredu wedi'i hadlewyrchu ym meini prawf 2-11) 	<p>1.1 Mae polisiau a strategaethau yn eu lle sy'n dilyn canllawiau cenedlaethol a lleol, sy'n cynnwys disgyblion os yn briodol.</p> <p>1.2 Mae polisiau a strategaethau'n cynnwys canllawiau cyfeirio clir y mae cymuned yr ysgol gyfan yn ymwybodol ohonynt, gan gynnwys hunangyfeirio at wasanaethau cwnsela.</p> <p>1.3 Mae gweithdrefnau monitro ac adolygu yn eu lle.</p> <p>1.4 Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r polisi.</p>	<p>Ymddygiad da yn amlwg o gwmpas yr ysgol</p>		



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisiau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
2. Ymrwymiad i hyfforddiant ysgol gyfan ar faterion iechyd a lles meddyliol ac emosiynol	<p>2.1 Mae'r athrawon a'r holl staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol.</p> <p>2.2 Mae hyfforddiant wedi dylanwadu ar arfer.</p>	<p>Diogelu Cwmsela Gwerthoedd Grŵp anogaeth Amser cylch Rheoli ymddygiad cadarnhadol Mentrau wedi'u cyflwyno ers i'r strategaethau hyfforddi fod yn eu lle</p>		
3. Ymgysylltu â mentrau lleol/cenedlaethol penodol a materion amgylcheddol a chymdeithasol, ac ymateb iddynt	<p>3.1 Mae ysgolion yn manteisio ar gyfleoedd a gynigir i ymwneud ag amrywiaeth o fentrau lleol/cenedlaethol.</p> <p>3.2 Mae ysgolion yn dangos hyblygrwydd yn y rhaglen astudio i ymateb i faterion a nodir yn lleol.</p>	<p>Mentrau gwrth-fwlio Gwasanaeth Cwmsela yn yr Ysgol Diwrnod Iechyd Meddwl Dulliau therapiwtig megis therapi chwarae, therapi cerddoriaeth neu therapi drama Grwpiau anogaeth Grwpiau cefnogi disgyblion Rhaglenni rhianta Ymateb i arolygon Gweithredu yn unol â chynghor gan weithiwr iechyd proffesiynol Angen penodol wedi'i nodi</p>		



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisiau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
Cwricwlwm				
<p>4. Iechyd a lles meddyliol ac emosiynol wedi'u cynnwys yn y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac ABCh</p>	<p>4.1 Mae cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi yn nodi amrywiaeth o agweddau ar iechyd a lles meddyliol ac emosiynol, gan adlewyrchu'r polisi penodol.</p> <p>4.2 Mae adnoddau'r cwricwlwm a ddefnyddir yn adlewyrchu canllawiau cyfredol.</p>	<p>Cwricwlwm ABCh Agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu (SEAL) Rhaglenni anogaeth</p>		
<p>5. Mae dysgu y tu allan i oriau ysgol yn ymgorffori gweithgareddau sy'n gynhwysol ac sy'n hyrwyddo mwy o hunan-barch a lles</p>	<p>5.1 Mae amserlen eang o weithgareddau yn ei lle, sy'n briodol i bob disgybl yn yr ysgol.</p>	<p>Clwb pyramid Rhestr o glybiau/ gweithgareddau</p>		



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisiau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
Ethos ac Amgylchedd yr Ysgol				
6. Cyfranogiad disgyblion	<p>6.1 Mae gan yr ysgol gyngor ysgol effeithiol sy'n cadw at ganllawiau cenedlaethol.</p> <p>6.2 Mae disgyblion eraill yn dylanwadu ar gyfarfodydd cyngor yr ysgol ac mae cynnwys y cyfarfodydd yn cael ei ledaenu iddynt ee, trwy gynghorau dosbarthiadau.</p> <p>6.3 Mae'r disgyblion yn cyfranogi'n weithredol ym meysydd craidd bywyd yr ysgol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar iechyd a lles plant a phobl ifanc ee, addysgu a dysgu, yr amgylchedd, dewis staff, gofal bugeiliol.</p> <p>6.4 Tystiolaeth bod disgyblion yn ymwneud â gwerthuso camau gweithredu.</p>	<p>Mecanweithiau adborth da gan Gyngor yr Ysgol Proses ddethol ar gyfer cynrychiolwyr y disgyblion Hysbysfwrdd/bwrdd arddangos i Gyngor yr Ysgol Rheolau dosbarth sydd wedi'u trafod Cynlluniau gwobrwyo sydd wedi'u trafod Cynlluniau cyfeillio Hunangyfeirio at gynlluniau cwnsela (U)</p> <p>Llais disgyblion Gwranddo ar ddysgwyr Rhaglen Llysgennad</p>		



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisïau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
7. Cyfranogiad staff	7.1 Tystiolaeth fod pob aelod o staff yn ymwneud â datblygiad iechyd a lles meddyliol ac emosiynol cadarnhaol, ee, trwy gefnogi camau gweithredu ysgol-gyfan megis sancsiynau a gwobrau, ac Amser Cylch.	Rheoli ymddygiad		
8. Amgylchedd, ethos a chwricwlwm anffurfiol yr ysgol	<p>8.1 Mae'r Datganiad Gweledigaeth/Cenhadaeth, y Nodau a'r Prosbectws yn cyfeirio at iechyd a lles meddyliol ac emosiynol y disgyblion a'r staff.</p> <p>8.2 Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dymunol, diogel a chymdeithasol.</p> <p>8.3 Mae gan ddisgyblion a staff fynediad at wasanaethau cwnsela.</p>	<p>Pecyn croeso/ymsefydlu i ddisgyblion Rhaglen bontio Cynllun mentora Cyfeillio/ Cyfoedion Amser Cylch Rheolau Aur Amser Aur Blychau awgrymiadau/ pryderon</p> <p>Arwyddion perthnasol Byrddau hysbysebion Arddangosfeydd lliwgar</p>		



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisiau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
	<p>8.4 Cyfeirir disgyblion at wasanaethau priodol.</p> <p>8.5 Mae gan yr ysgol raglen ymsefydlu ar gyfer staff, llywodraethwyr a disgyblion sy'n cyfleu ethos yr ysgol.</p> <p>8.6 Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd i staff a disgyblion gael eu cynnwys mewn gweithgareddau i hyrwyddo eu hunan-barch a'u lles hwythau'n ogystal â hunan-barch a lles pobl eraill.</p> <p>8.7 Mae'r ysgol yn cefnogi ac yn addysgu disgyblion i ddatblygu sgiliau cyfathrebu a chymdeithasol i'w galluogi i archwilio, mynegi a rheoli eu teimladau ac i empathieiddio ag eraill.</p>	<p>Childline Gwrth-fwlio Nyrs yr ysgol</p> <p>CPA diogel Rheoli perfformiad</p> <p>Rheolau'r buarth chwarae Datrys anghydfodau Amer cylch</p>		



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisiau eu rhoi ar waith	Engbreiffiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
Cynnwys Teuluoedd a'r Gymuned				
9. Cynnwys teuluoedd a'r gymuned	<p>9.1 Mae rhieni/gofalwyr yn cael eu hysbysu'n gyson ac yn deall pwysigrwydd iechyd a lles meddyliol ac emosiynol iddynt hwythau ac i'w plant.</p> <p>9.2 Tystiolaeth o weithio gyda rhieni i gael agwedd ysgol-gyfan at hyrwyddo materion yn ymwneud ag iechyd a lles meddyliol ac emosiynol.</p> <p>9.3 Tystiolaeth o ddarparu cyngor i rieni, disgyblion a theuluoedd ar sut i ddelio ag achosion bwlio ac ar weithdrefnau adrodd.</p>	<p>Tasgau ysgol gartref Gwasanaethau i rieni</p> <p>Ymwybyddiaeth o bolisiau a gweithdrefnau Anfon gwybodaeth gartref</p>		



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisiau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
	<p>9.4 Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd i deuluoedd, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach i gael eu cynnwys ym mywyd beunyddiol yr ysgol ac i gyfrannu ato.</p> <p>9.5 Mae'r ysgol yn cefnogi'r gymuned.</p> <p>9.6 Defnyddir arbenigedd rhieni a/neu aelodau o'r gymuned i gefnogi gweithgareddau'r cwricwlwm neu rai nad ydynt yn rhan o'r cwricwlwm.</p>	<p>Enghreifftiau o gymryd rhan Drws agored</p> <p>Gwaith elusennol Gweithio gyda'r henoed</p>		



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisiau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
<p>10. Ymwneud a chydweithredu ag asiantaethau statudol a gwirfoddol ac unigolion y tu allan i'r ysgol</p>	<p>10.1 Mae ysgolion yn ymgysylltu â gwahanol asiantaethau i gefnogi disgyblion a staff ac yn helpu i ddatblygu polisiau, rhaglenni a'r cwricwlwm.</p> <p>10.2 Mae unrhyw gyfraniad yn cael ei gynllunio, yn cydymffurfio â pholisiau, yn cael ei integreiddio a'i werthuso, ac mae camau dilynol yn cael eu cymryd ar y gwaith.</p>	<p>Swyddog cydraddoldebau Cwnsela Seicolegwyr addysg Rhwydweithiau cefnogi</p>		



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisiau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
Datblygu Gweithle sy'n Hybu Iechyd				
<p>11. Datblygu gweithle sy'n hybu iechyd ac sy'n cydnabod pwysigrwydd cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles corfforol, meddyliol ac emosiynol</p>	<p>11.1 Ymgynghorir â'r holl staff a'u cynnwys wrth ddatblygu gweithle sy'n hybu iechyd.</p> <p>11.2 Rhaglen briodol o hyfforddiant/dysgu a datblygu yn ei lle ar gyfer pob aelod o staff, i gefnogi datblygu gweithle sy'n hybu iechyd.</p> <p>11.3 Amser CPA sydd wedi'i ddiogelu a man gwaith priodol.</p> <p>11.4 Mae'r staff yn ystyried bod y cyfleusterau yn ystafelloedd y yn ddigonol.</p>	<p>Safon Iechyd Gorfforaethol Buddsoddwyr mewn Pobl Rheoli straen staff a pholisiau eraill sy'n gysylltiedig ag iechyd Hyfforddiant rheoli straen Diwrnodau iechyd staff Gweithgareddau ffitrwydd staff a chysylltiadau â'r ganolfan hamdden leol Defnyddio Amser Cylch Uchel ei Safon Eitemau ar agenda'r cyfarfod staff Digwyddiadau cymdeithasol i staff Ystafell staff Cyfleusterau te/coffi Cyfleusterau newid</p>		



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisiau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
	<p>11.5 Cyfeirir at wasanaethau priodol ac mae gan staff fynediad at wasanaethau arbenigol gan gynnwys lechyd Galwedigaethol a chwnsela.</p> <p>11.6 Tystiolaeth bod gweithdrefnau yn eu lle i fynd i'r afael â chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.</p>	<p>Bwrdd hysbysebion staff</p> <p>Polisi lles staff Polisi drws agored Trefniadau gweithio hyblyg Hyd cyfarfodydd staff/ nosweithiau rhieni</p>		

DATBLYGIAD PERSONOL A PHERTHNASOEDD



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisiau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
Arweiniad a Chyfathrebu				
<p>1. Polisi Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (y broses weithredu wedi'i hadlewyrchu ym meini prawf 2-9)</p>	<p>1.1 Mae polisi yn ei le sy'n dilyn canllawiau cenedlaethol a lleol. Rhaid i ysgolion cynradd ddarparu rhaglen raddedig sy'n addas i oedran y plant, ond ni fydd ysgol yn cael ei chosbi os bydd cyfran uchel o'r rhieni yn tynnu eu plant o'r rhaglen.</p> <p>1.2 Mae'r polisi wedi'i ddatblygu gan weithgor sy'n cynnwys staff a llywodraethwyr yr ysgol.</p> <p>1.3 Mae'r polisi'n cynnwys canllawiau cyfeirio clir y mae cymuned yr ysgol gyfan yn ymwybodol ohonynt.</p> <p>1.4 Mae'r ysgol yn darparu fframwaith clir i'r holl staff sy'n galluogi amgylchedd dysgu diogel, ee, i wahardd digwyddiadau sy'n ymwneud â gwefannau, deunyddiau neu weithgareddau amhriodol.</p>	<p>Polisi Addysg Rhyw a Pherthnasoedd Croesgyfeirio â pholisiau eraill</p> <p>Rhestr aelodau</p> <p>Cyswllt amddiffyn/diogelu plant</p> <p>Polisi rhyngrwyd Cod Ymddygiad Rheolau sylfaenol</p>		



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisiau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
	<p>1.5 Mewn ysgolion, mae ystyriaeth wedi'i rhoi i gynnwys disgyblion hŷn wrth ddatblygu polisi.</p> <p>1.6 Lledaenir y polisi i bob aelod o gymuned yr ysgol gan gynnwys rhieni ac ymwelwyr sy'n ymwneud â chyflenwi.</p> <p>1.7 Gweithdrefnau a pholisiau monitro gyda dyddiad adolygu clir heb fod yn fwy na 3 blynedd.</p>	<p>Sut mae'r disgyblion wedi cymryd rhan</p> <p>Gwefan Nosweithiau agored Briffio</p>		



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisiau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
<p>2. Ymrwymiad i hyfforddiant staff cyfan ar ddatblygu personol a materion sy'n gysylltiedig â pherthnasoedd</p>	<p>2.1 Mae'r holl staff sy'n ymwneud â chyflenwi'r rhaglen yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth benodol ynglŷn â chyflenwi rhaglenni a delio â materion sensitif.</p> <p>2.2 Mae hyfforddiant wedi dylanwadu ar ymarfer.</p> <p>2.3 Mae aelod enwebedig o staff yn arwain ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, ac mae staff yr ysgol yn cymryd rhan yn y gwaith o'i chyflwyno.</p>	<p>Cynlluniau gwersi newydd Dulliau newydd</p>		
<p>3. Ymgysylltu â mentrau lleol/ cenedlaethol, materion amgylcheddol a chymdeithasol, ac ymateb iddynt</p>	<p>3.1 Mae'r ysgol yn dangos hyblygrwydd wrth ymateb i faterion sydd wedi'u nodi yn lleol ac yn genedlaethol.</p>	<p>Clinigau galw heibio (U) Gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol Cynlluniau Cerdyn-C (U) Bod yn ymwybodol o faterion lleol a chenedlaethol Anghenion dysgu ychwanegol</p>		



Meini prawf	Mae'r dangosyddion isod yn dangos sut y caiff polisïau eu rhoi ar waith	Enghreifftiau o fanylebau/ gweithgareddau/ tystiolaeth berthnasol	Sylwadau	D / G / N
Cwricwlwm				
